



## Ysgol Pentreuchaf

### 62. Polisi Darparu ar gyfer Plant Teuluoedd sy'n Ceisio Lloches (neu sydd â statws ffoaduriaid / plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches)

#### 1. Cyflwyniad.

Mae'r cynnydd mewn plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyflwyno her arbennig i A.A.LI ac ysgolion.

#### 2. Cyd-destun.

2.1 Mae Cynghorau ac asiantiaethau eraill yn wynebu her yn y dasg gymhleth o gynllunio a pharatoi gwasanaethau ar gyfer y grŵp hwn. Caiff hyn ei gymhlethu gan ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth, megis diffyg gwybodaeth am y nifer a fydd yn dod, anhawster i gysoni gofynion mewn fudo gydag ystyriaethau cymdeithasol ehangach yn ogystal ag ansicrwydd ynglŷn â materion cyllidol.

2.2 Mae cael gwybodaeth ddibynadwy ynghylch y plant hyn hefyd yn anodd. Golyga hyn broblemau wrth geisio sicrhau y lleoliad addysgol gorau ar eu cyfer. Daw problemau ychwanegol pan nad oes cyfieithwyr cymwys ar gael i hyrwyddo'r broses o gael y cynllun addysgol gorau yn ei le.

2.3 Mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ymhlith y grŵp mwyaf bregus sy'n ceisio lloches. Ceir amodau cyfreithiol arbennig ar gyfer y grŵp hwn. Pan fyddant yn cyflwyno eu hunain gyntaf, mae'r cyfrifoldeb drostynt yn gorwedd gyda'r Cyngor Lleol. Yn aml bydd ansicrwydd ynglŷn â'u hoed. Cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw gwneud asesiad mewn sefyllfa o'r fath.

2.4 Bydd plant ceiswyr lloches yn cael eu dylanwadu gan bolisiau mewn fudo yn yr un modd a'u rhieni.

2.5 Mae llawer o'r plant yn dioddef bylchau yn eu haddysg a fydd yn amharu ar eu datblygiad addysgol.

#### 3. Datganiad o fwriad.

3.1 Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i weithredu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau tuag at y plant yma i sicrhau eu bod yn cael addysg addas. Mae'r hyn a nodwyd yn y polisiau ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a thrafeilwyr hefyd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

3.2 Sicrhau cydweithio effeithiol rhwng yr holl asiantiaethau sy'n ymwneud â cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

#### 4. Fframwaith Statudol.

1999 Immigration and Asylum Act 2002 Nationality, Immigration and Asylum Act

2006 Immigration, Asylum and Nationality Act 2004 Deddf Plant

#### 5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Mae gan blant ceiswyr lloches a ffoaduriaid hawl i addysg a gwasanaeth blynyddoedd cynnar.

5.2 Dylid gosod plant mewn ysgol briodol mor fuan ag y bo modd.

5.3 Dylid sicrhau bod asiantiaethau yn cyd weithredu er budd y plant.

5.4 Bydd gan y plant hyn ystod helaeth o anghenion, a bydd gofynion pob unigolyn yn wahanol a bydd yr awdurdod yn ceisio ymateb i'r anghenion unigol hyn.

#### 6. Amcanion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd.

6.1 Sicrhau bod pob disgybl yn cael yr addysg sy'n gymwys ar eu cyfer, gan gynnwys disgyblion o oed addysg statudol sydd yn geiswyr lloches

6.2 Ymdrin ag unrhyw geiswyr lloches, a sydd a datganiad o anghenion addysgol arbennig, yn yr un modd ag unrhyw ddisgybl ysgol arall sydd ar ddatganiad.

6.3 Bydd swyddog yn cael ei ddynodi i ddelio â materion penodol a gyfyd ynglŷn â phlant ceiswyr lloches

6.4 Bydd y Gwasanaeth yn cadw bas data ar gynydd pob disgybl sy'n derbyn addysg y tu allan i ysgol.

6.5 Bydd y Gwasanaeth yn darparu hyffoddiant i bersonau addas o fewn ysgolion.

6.6 Bydd y Gwasanaeth yn chwarae eu rhan mewn gwaith partneriaethol rhwng gwahanol asiantaethau er mwyn hyrwyddo arfer dda a chanllawiau gweithredu ymarferol i ysgolion.

#### 7. Dyletswyddau Corff Llywodraethu Ysgol.

7.1 Sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl.

7.2 Rhaid i gyrrff Llywodraethu sicrhau cydymffurfiant gyda'r deddfau perthasol.

### **8.Cyfrifoldeb a dyletswyddau penaethiaid ysgolion.**

8.1 Dylai pennaeth sicrhau bod anghenion ceiswyr lloches yn cael eu hadnabod a'u diwallu.

8.2 Dylai pob ysgol adnabod aelod o staff a fydd yn goruchwyllo ac yn monitro gweithrediad y polisi.

8.3 Bydd yr aelod staff hefyd yn goruchwyllo anghenion addysgol unrhyw geisiwr lloches, a hefyd yn ei gyfeirio at unrhyw asiantiaethau allanol a all ei helpu, os bydd angen.

8.4 Bydd hefyd yn sicrhau rhaglen unigol i sicrhau bod yr unigolyn yn cyrraedd ei botensial academaidd.

8.5 Os bydd y disgybl yn blentyn ar ei ben ei hun yn geisiwr lloches yna bydd yr hyn a nodir yn y polisi Plant Mewn Gofal hefyd yn berthnasol.

### **9.Casgliad.**

Y nôd yw creu sefydliadau a fydd yn groesawus ac agored i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Byddwn yn gweithio i sicrhau eu bod yn derbyn cyfle cyfartal yn academaidd a chymdeithasol o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**